# Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad

## Cronfa Dyfodol yr Economi

## Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol

### Canllawiau ar gyfer Gwneud Cais

# Cynnwys


**Cymru Greadigol** 2

**Beth yw diben Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol?** 2

**Egwyddorion Cyllido Lefel Uchel Cymru Greadigol** 3

**O dan ba amgylchiadau y byddwn yn ystyried cefnogi prosiectau?** 4

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais?** 5

**Pa genres cynhyrchu y bydd y gronfa yn eu cefnogi?** 5

**Pa rai o flaenoriaethau strategol Cymru Greadigol rydym yn edrych amdanynt wrth asesu prosiect cynhyrchu?** 6

- Effaith Economaidd 6
- Dichonoldeb Masnachol 7
- Datblygu Sgiliau a Thalent 7
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 8
- Cyflwyno Diwylliant Cymru 8
- Cynaliadwyedd 8

**Wedi'i sgriptio** 9

- Pwy all wneud cais? 9
- Faint y gallaf wneud cais amdano? 9
- Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu cynhyrchiad wedi'i sgriptio. 10

**Heb ei Sgriptio** 10

- Pwy all wneud cais? 10
- Faint y gallaf wneud cais amdano? 10
- Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu prosiect heb ei sgriptio. 11

**Cynllun Peilot Hwyluswyr Llesiant Cymru** 12

**Animeiddio** 12

- Pwy all wneud cais? 12
- Faint y gallaf wneud cais amdano? 12
- Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu prosiect animeiddio. 12

**Sut rydym yn cefnogi Ffilmiau Nodwedd sy'n cael eu cynhyrchu i'w rhyddhau mewn theatrau?** 13

**Gemau** 14

- Pwy all wneud cais? 14
- Faint y gallaf wneud cais amdano? 14
- Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu prosiect gemau. 15

**Beth arall y dylwn ei ystyried cyn gwneud cais am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol?** 15

- Cyllideb Fanwl ar gyfer y Cynhyrchiad a Gwariant yng Nghymru 16
- Asiantiaid gwerthu a/neu ddosbarthwyr 16
- Cynllun cyllid 16
- Llif arian parod y prosiect 16
- Ad-dalu Cyllid Cynhyrchu 17
- Eiddo Deallusol 17

Cynllun Cyhoeddusrwydd a Rhestr Gydnabod ........ 17
Ardystiad y Diwydiant ........ 18
**Pa gostau sy'n anghymwys i gael y cyllid hwn? ........ 18**
**Sut y gallaf wneud cais? ........ 18**
Asesiad Cychwynnol o Gymhwystra ........ 18
Y Cam Datgan Diddordeb ........ 19
Cam Gwneud Cais ........ 19
**Arfarnu ........ 21**
**Cytuno ar y llythyr dyfarnu ........ 21**
**Amserlenni ........ 22**
**Talu a Monitro ........ 22**
Rhestr Hawliadau ........ 22
Talu a Monitro ........ 22
Monitro Ar Ôl Cwblhau ........ 22
Ad-dalu'r Grant ........ 23
**Y Gymraeg ........ 23**
**Y Weithdrefn Gwyno ........ 23**
**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ........ 23**
**Hysbysiad Preifatrwydd ........ 23**
**Rheoli Cymorthdaliadau'r DU ........ 24**
**Rhagor o Wybodaeth ........ 24**
**Atodiad A ........ 25**
Gwariant yng Nghymru ........ 25

# Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n helpu i ddatblygu'r diwydiant creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hybu twf yn y sectorau Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan sicrhau mai Cymru yw un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu. Mae ein sefydliad yn buddsoddi'n barhaus yn y gwaith o ddatblygu seilwaith a busnesau creadigol, gan adeiladu ar lwyddiant parhaus, nodi cyfleoedd a mynd ati i hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ym mhob rhan o'r diwydiant. Rydym yn frwdfrydig dros gefnogi talent cartref a denu prosiectau creadigol rhyngwladol i Gymru. Wrth wneud hynny, rydym yn atgyfnerthu'r diwydiant yn yr hirdymor ac yn creu cyfleoedd cyffrous i genedlaethau'r dyfodol.

# Beth yw diben Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol?

Mae Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol yn gynllun disgresiynol a gyflwynir drwy Gronfa Dyfodol yr Economi, lle y defnyddir cyllid cyhoeddus i gefnogi twf Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu cynnwys o'r radd flaenaf. Bydd y cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a

fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Fe'i defnyddir hefyd i ddenu cwmnïau mewnfuddsoddi o'r radd flaenaf a all hybu'r economi leol a gadael gwaddol sylweddol o ran sgiliau yng Nghymru.

Mae Cymru Greadigol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sector cynhyrchu cynnwys sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac amrywiol ar gyfer sail cyflogaeth sgil uchel hirdymor. Bydd y cyllid yn targedu cwmnïau sy'n rhoi'r arferion diweddaraf ym maes cynhyrchu cynaliadwy ar waith ac sy'n rhoi'r pwys mwyaf ar lesiant cast, criw a chyflogeion, p'un a ydynt yn weithwyr llawrydd, yn gontractwyr neu'n staff parhaol.

Rydym hefyd yn blaenoriaethu cynnwys sy'n dangos y gorau o Gymru i'r byd, o ran diwylliant, iaith a daearyddiaeth.

Drwy'r cyllid hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Hybu gweithgarwch cynhyrchu drwy ysgogi cynnydd yn nifer y cynyrchiadau a'r amrywiaeth o gynyrchiadau a wneir yng Nghymru
- Sicrhau bod cynyrchiadau a gefnogir yn cael yr effaith fwyaf posibl ar economïau lleol a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru
- Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y sector drwy sicrhau bod mwy o gyfleoedd cydgysylltiedig ar gyfer hyfforddiant a datblygiad
- Datblygu cynulleidfaoedd drwy wella mynediad i gynyrchiadau a chynnwys a wneir yng Nghymru, yn y wlad hon ac yn rhyngwladol
- Datblygu enw da Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynyrchiadau a chydgynyrchiadau rhyngwladol, a gefnogir gan ein talent, ein criwiau, ein cyfleusterau a'n lleoliadau unigryw sydd o'r radd flaenaf
- Helpu i ddatblygu gweithlu amrywiol medrus

Drwy'r cyllid hwn, bydd Cymru yn manteisio ar y cynnydd enfawr yn y galw am gynnwys ledled y byd, drwy ddatblygu diwydiant hirdymor cynaliadwy. Byddwn yn sicrhau y gall pawb sy'n gweithio yn y sector, o weithwyr llawrydd i griw, cast a staff parhaol, ddatblygu eu gyrfa mewn amgylcheddau gwaith teg. Mae'r cyllid hwn yn ein galluogi i gynnal llif o brosiectau arfaethedig sydd, yn ei dro, yn hanfodol i sicrhau sefydlogrwydd y diwydiant.

# Egwyddorion Cyllido Lefel Uchel Cymru Greadigol

Bwriedir i gyllid gan Cymru Greadigol gefnogi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf cynhwysol a chynaliadwy yn yr economi. Felly, rydym yn disgwyl i sefydliadau sy'n cael cymorth gennym weithredu mewn ffordd gyfrifol a disgwylir i bob busnes sy'n gwneud cais am gyllid gan Cymru Greadigol ymrwymo i ddilyn ein hegwyddorion cyllido lefel uchel ar ffurf Contract Economaidd.

Mae'r Contract Economaidd yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a busnes ar y camau y byddwn ni a'r busnes hwnnw yn eu cymryd sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu a gwella bywydau pobl ledled Cymru, yn seiliedig ar ddealltwriaeth ac ymrwymiad ar y cyd i'r egwyddorion canlynol:

- Mae ein gweledigaeth ar gyfer economi lesiant Cymru yn un sy'n sicrhau ffyniant i bawb ac sy'n amgylcheddol gadarn, yn helpu pawb i fyw bywydau iach a chyflawni eu potensial, gyda diwylliant Cymreig bywiog.
- Mae'r Contract Economaidd yn ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru wrth ddatblygu economi fwy cadarn a ffyniannus.

Drwy'r Contract Economaidd, gall busnesau ddangos y cyfraniad y byddant yn ei wneud at yr egwyddorion hyn ac mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r cymorth y bydd yn ei roi yn gyfnewid am hynny.

Mae'r Contract Economaidd yn adlewyrchu blaenoriaethau ein Rhaglen Lywodraethu a gweledigaeth Cymru a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn gofyn i fusnesau sy'n gwneud cais am gyllid wneud ymrwymiadau hirdymor yn y meysydd canlynol:

- Economi Hyblyg a Chryf
- Gwaith Teg
- Hyrwyddo Llesiant
- Carbon isel a Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd

## O dan ba amgylchiadau y byddwn yn ystyried cefnogi prosiectau?

Dim ond y lleiafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect allu digwydd yng Nghymru y bydd Cymru Greadigol yn ei roi. Fel arfer, dim ond ar sail un neu fwy o'r tri senario isod y darperir cymorth ar gyfer cynyrchiadau.

- <u>Symudedd</u> – rydym yn derbyn bod cymhellion rhyngwladol ar gael yn hawdd sy'n ei gwneud yn bosibl i'r rhan fwyaf o gynyrchiadau gael eu hystyried yn rhai symudol. Bydd angen ichi nodi pa diriogaethau eraill rydych yn eu hystyried, dangos bod y tiriogaethau hynny yn realistig a nodi'r cymhellion a allai fod ar gael yn y lleoliadau amgen hynny. Ar yr un pryd, disgwylir ichi esbonio pam mai'r swm rydych yn gwneud cais amdano yw'r lleiafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect allu digwydd yng Nghymru a darparu tystiolaeth sy'n dangos mai dyna'r lleiafswm sydd ei angen.

- <u>Bwlch Ariannol</u> - lle y ceir bwlch yn y rhestr gyllid, bydd angen inni gael rhagamcan o lif arian parod ar gyfer cyfnod y prosiect sy'n dangos diffyg ariannol sy'n cyfateb i'r swm y gwneir cais amdano neu sy'n fwy na'r swm hwnnw. Lle y ceir bwlch cyllido sy'n fwy na'r grant sydd ar gael, disgwylir ichi esbonio sut y byddwch yn cau'r bwlch hwnnw er mwyn sicrhau hyfywedd y prosiect. Cynigir cyllid Cymru Greadigol fel y rhan olaf o gynllun cyllid a gadarnhawyd. Felly, bydd angen ichi ddangos eich bod wedi ystyried pob ffynhonnell realistig arall o gyllid preifat ac mai eich cyfraniad chi yw'r un mwyaf posibl y gallwch ei wneud.

- <u>Cyflymu</u> – Lle y gall y prosiect ddigwydd yn gyflymach, cynnwys deunydd o ansawdd uwch neu ddigwydd ar raddfa fwy nag a fyddai'n bosibl heb ein cymorth, byddwn yn derbyn cais am swm y gellir dangos ei fod yn gwella'r prosiect, neu swm sy'n ei gwneud yn bosibl i brosiect gael ei gyflawni ynghynt. Yn y ddau achos, bydd angen cyflwyno achos busnes byr gyda'r cais sy'n cyfiawnhau'r swm.

**Noder** – Ni ddylid tybio na chyfleu bod cyllid Cymru Greadigol wedi'i gadarnhau yn eich cynllun cyllid nes i'r broses briodol gael ei dilyn mewn perthynas â phob elfen o'r cais a'r broses asesu, a fydd yn arwain at lofnodi a chyflawni cytundeb cyfreithiol prosiect.

Ni allwn gyllido costau cynhyrchu unrhyw brosiect yn llawn, waeth beth fo'r gyllideb. Ystyrir bod ceisiadau heb gyllid arall gan y farchnad ynghlwm wrthynt sy'n ceisio cael

eu cyllido'n llawn gan Cymru Greadigol neu eu cyllido â chymorth Cymru Greadigol a Chredyd Treth gymwys y DU yn unig, yn anghymwys.

Bydd y mwyafrif o gynyrchiadau a gefnogir drwy'r gronfa hon gan ymgeiswyr sydd wedi nodi bwlch mewn cyllideb gynhyrchu sydd fel arall wedi'i chyllido'n llawn ac sydd wedi ystyried y lefel isaf o gymorth ariannol sydd ei angen gan Cymru Greadigol cyn cysylltu â ni (ceir canllawiau ar y bwlch y gallwn ei gyllido ar gyfer pob genre yn y ddogfen hon).

Ni allwn gefnogi prosiectau lle mae ymrwymiad sylweddol y tu hwnt i'r cam cynllunio wedi dechrau neu wedi cael ei wneud neu lle mae'r prif gam ffotograffiaeth wedi dechrau. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai hyn yn golygu bod prosiect yn anghymwys.

## Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Gallwch wneud cais am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol os ydych yn bodloni **POB UN** o'r meini prawf cymhwyso canlynol;

- Eich prif weithgarwch busnes yw Ffilm neu'r Teledu (wedi'i sgriptio/heb ei sgriptio), Gemau neu Animeiddio
- Bydd y cynhyrchiad cyfan neu ran sylweddol ohono yn cael ei (g)wneud yng Nghymru.
- Mae gennych gynllun cyllid a ystyriwyd yn llawn gyda'r holl gyllid arall wedi'i drefnu
- Mae elfen sgiliau/uwchsgilio i'r prosiect
- Mae eich prosiect yn dangos ymrwymiad i amrywiaeth, cynwysoldeb a chynaliadwyedd.
- Gallwch ddangos dichonoldeb masnachol (cytundeb dosbarthu, comisiwn, darlledwr ac ati) sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn
- Mae o leiaf 12 wythnos tan ddyddiad dechrau'r prosiect (y prif gam ffotograffiaeth ar gyfer prosiectau Teledu a Ffilm) o ddyddiad yr ymholiad ynglŷn â'r prosiect *
- Mae gan eich cwmni/tîm rheoli hanes y gellir ei ddangos o gyflawni yn y genre ac o leiaf un cynhyrchiad masnachol a ryddhawyd o fewn y tair blynedd diwethaf i ddyddiad y cais

**Noder** - gall penderfyniad cyllido gymryd mwy na 12 wythnos a bydd angen cyflwyno cais wedi'i gwblhau'n llawn am gyllid.

## Pa genres cynhyrchu y bydd y gronfa yn eu cefnogi?

- Wedi'i sgriptio
- Heb ei sgriptio
- Animeiddio
- Datblygu Gemau

**Noder** – Nid yw prosiectau gwneud ffilmiau byr na chynhyrchu 'llechen' y tu hwnt i gwmpas un gyfres yn cael eu cefnogi drwy'r cyllid cynhyrchu hwn.

Ffilmiau theatraidd – mae trefniadau ar gyfer cyllido ffilmiau o'r fath wrthi'n cael eu cwblhau a chânt eu cyhoeddi'n fuan. (Theatraidd – y ffilmiau hynny – o ba genre bynnag

– gan gynnwys animeiddio a ffilmiau dogfennol – y bwriedir iddynt gael eu rhyddhau mewn theatrau ac a gyllidir yn bennaf y tu allan i stiwdios).

## Pa rai o flaenoriaethau strategol Cymru Greadigol rydym yn edrych amdanynt wrth asesu prosiect cynhyrchu?

Bydd y penderfyniad ynghylch pa geisiadau a gaiff eu cyllido yn seiliedig ar asesiad cyffredinol o'r graddau y mae prosiect yn bodloni'r meini prawf allweddol canlynol:

- Effaith Economaidd
- Dichonoldeb Masnachol
- Datblygu Sgiliau a Thalent
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyflwyno Diwylliant Cymru
- Cynaliadwyedd

Er mwyn cadarnhau, disgwylir i bob prosiect gyflawni yn erbyn meini prawf penodol sy'n ymwneud ag effaith economaidd, dichonoldeb masnachol a chyfraniad at ddatblygu sgiliau a thalent, wedi'u teilwra yn ôl y math o brosiect a rhoddir manylion pellach am hyn yn yr adrannau sy'n ymdrin â phrosiectau penodol yn y ddogfen ganllaw. Cydnabyddir y bydd y graddau y mae prosiectau yn cyflawni yn erbyn meini prawf eraill yn amrywio, yn dibynnu ar natur y prosiect.

**Mae'r penderfyniad ynghylch a fydd prosiect yn cael cyllid yn seiliedig ar sgôr gyfunol yn erbyn pob un o'r meini prawf uchod, gan gydnabod y bydd rhai prosiectau yn cael sgôr uwch yn erbyn rhai meini prawf o gymharu â meini prawf eraill.**

Fel y nodwyd uchod, byddem yn disgwyl i bob ymgeisydd llwyddiannus weithredu yn unol â'n blaenoriaethau ar y cyd sy'n ymwneud â gwaith teg, hyrwyddo llesiant a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd fel y cytunwyd drwy'r Contract Economaidd.

### Effaith Economaidd

Ein nod yw cefnogi prosiectau a fydd yn sicrhau bod gweithgarwch cynhyrchu yng Nghymru yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl ac, yn y pen draw, yn gadael gwaddol a fydd yn atgyfnerthu ein diwydiant ymhellach.

Asesir ansawdd drwy ystyried y meysydd canlynol (nad ydynt yn nhrefn blaenoriaeth);

- Enillion uniongyrchol ar fuddsoddiad – gwerth am arian – Cymhareb cyfanswm y gwariant ar weithgarwch cynhyrchu yng Nghymru i'r cyllid y gofynnir amdano.
- Atgyfnerthu gweithlu Cymru, gan gynnwys cast, criw, gweithwyr llawrydd a chyflogeion parhaol
- Cefnogi twf cwmnïau brodorol
- Cynyrchiadau â photensial lluosydd, gan gynnwys cyfres a all ddychwelyd, ailgomisiynu prosiectau, argraffiadau pellach o gemau ac ati
- Ansawdd gwariant (uwchlaw ac islaw'r llinell wrth gynhyrchu), lefelau cyflog (wrth ddatblygu gemau).

- Yr effaith ar y gadwyn gyflenwi a darparwyr gwasanaethau lleol – gan gynnwys y defnydd o gyflenwyr lleol ym meysydd ôl-gynhyrchu, VFX, sain, cymorth busnes ac ati.
- Gwariant rhanbarthol – Yn dod â budd i ardaloedd lle y bu llai o weithgarwch cynhyrchu yn hanesyddol neu sydd â lefelau isel o gyflogaeth
- Yr effaith ar dwristiaeth
- Cyrhaeddiad rhyngwladol

## Dichonoldeb Masnachol

Rydym yn awyddus i gefnogi prosiectau sydd â'r siawns orau o lwyddo i gyrraedd eu cynulleidfaoedd targed. Felly, rydym yn disgwyl ichi fod wedi cadarnhau, neu wedi cael, datganiad ysgrifenedig o ddiddordeb mawr darlledwr/asiant gwerthu a/neu ddosbarthwr ar gyfer eich prosiect cyn gwneud cais, neu ichi fod â llwybr pendant at y farchnad.

Asesir ansawdd drwy ystyried y meysydd canlynol;

- Y llwybr at y farchnad.
- Hanes o gyflawni.
- Y tîm rheoli – y gallu i gyflawni.
- Dosbarthwr – dosbarthwr cydnabyddedig, sy'n addas ar gyfer y cynhyrchiad.
- Potensial lluosydd e.e. cyfres a all ddychwelyd, ailgomisiynu prosiectau.
- Creu/cadw eiddo deallusol.

## Datblygu Sgiliau a Thalent

Mae helpu i ddatblygu sgiliau a thalent yn ein sectorau creadigol yn flaenoriaeth allweddol. Rydym yn ymrwymedig i weithio tuag at greu diwydiant cynaliadwy, cynhwysol ac amrywiol yng Nghymru a chefnogi cadwyn gyflenwi a sylfaen dalent ffyniannus ledled Cymru.

Yn unol â'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc, gan gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed, rhaid i gynyrchiadau sy'n cael cyllid gan Cymru Greadigol ymrwymo i gynnig cyfleoedd i hyfforddeion ar ffurf lleoliadau â thâl a fydd yn cael eu tracio a'u monitro er mwyn helpu i sicrhau llwybrau gyrfaoedd i bob hyfforddai yn y dyfodol. Disgwylir i ymgeiswyr ddangos proses recriwtio deg ac agored sy'n sicrhau cyfleoedd i bawb, p'un a fyddant yn recriwtio'n uniongyrchol neu o gynllun cydnabyddedig i hyfforddeion. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i fentrau sgiliau sy'n cefnogi unigolion sy'n chwilio am yrfa yn sector y sgrin.

Yn unol â'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau pob oed, rydym yn disgwyl i o leiaf un lleoliad â thâl ar gynhyrchiad gael ei gynnig i unigolyn sy'n dilyn prentisiaeth, os oes cynllun prentisiaeth perthnasol yn bodoli yng Nghymru.

Rydym hefyd yn chwilio am brosiectau a all ddangos ymrwymiadau ychwanegol i wella ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y sector yn ogystal â helpu unigolion i ddatblygu yn eu gyrfa drwy gynnig cyfleoedd uwchsgilio, profiad gwaith/lleoliadau cysgodi, gweithdai a gwaith allgymorth gydag ysgolion, colegau neu brifysgolion yng Nghymru.

Asesir ansawdd prosiect drwy ystyried y meysydd canlynol;

- Nifer yr hyfforddeion/ansawdd ac amserlen prosiect y rhaglen hyfforddi
- Caffael o gynllun cydnabyddedig
- Targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cynlluniau hyfforddi/gweithdai arloesol
- Y rhan o'r adran lle y nodwyd bylchau
- Amrywiaeth/cynwysoldeb/cyfranogiad
- Cyfleoedd uwchsgilio

Yn ddelfrydol, caiff cyfleoedd hyfforddi eu cynnig ar gyfer amrywiaeth o feysydd uwchsgilio a newydd-ddyfodiaid.

**Rhaid i bob lleoliad â thâl a chyfle uwchsgilio sydd ynghlwm wrth ein cytundeb cyllid cynhyrchu fod ar gyfer unigolion sydd â phrif breswylfa yng Nghymru ac a nodwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd â Chymru Greadigol wrth gytuno ar y cynllun i hyfforddeion cyn i'r prosiect ddechrau.**

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Croesewir prosiectau a all ddangos tangynrychiolaeth yn y diwydiant a mynd i'r afael â hi. Ar hyn o bryd, mae Cymru Greadigol yn gweithio gyda Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) ar fersiwn o'i safonau amrywiaeth i Gymru.

Yn y cyfamser a thra bydd y rhain yn cael eu datblygu, rydym yn disgwyl i gynyrchiadau ddangos ymrwymiad i gynhwysiant yn y meysydd canlynol;

- Cynrychiolaeth, themâu a naratifau ar y sgrin.
- Arweinyddiaeth greadigol a thîm prosiect.
- Mynediad at y diwydiant a chyfleoedd.

## Cyflwyno Diwylliant Cymru

Asesir y portread diwylliannol o Gymru drwy ystyried y meysydd canlynol;

- Hyrwyddo a datblygu cynnwys Cymraeg a/neu ddefnyddio'r Gymraeg mewn cynnwys Saesneg iaith gyntaf.
- Cyrhaeddiad domestig/rhyngwladol – hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.
- Hyrwyddo straeon/hanes/diwylliant Cymru.
- Portread dilys o Gymru.
- Hyrwyddo lleoliadau ledled Cymru.

## Cynaliadwyedd

Croesewir prosiectau a all ddangos nodau cynaliadwyedd y diwydiant a Llywodraeth Cymru a chyfrannu at eu cyflawni. Gellid dangos hyn drwy'r canlynol:

- Tystiolaeth o asesiad amgylcheddol cyn cynhyrchu.
- Bydd ôl troed carbon y cynhyrchiad yn cael ei dracio(h.y. trwy ardystiad Albert BAFTA).
- Tystiolaeth o wersi a ddysgwyd o gynyrchiadau blaenorol.
- Dylai cyfres ailadroddol bob amser leihau'r ôl troed carbon.
- Sgoriau i fodelau cynhyrchu arloesol ar gyfer lleihau Carbon.

# Wedi'i sgriptio

## Pwy all wneud cais?

- Cwmnïau cynhyrchu wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cwmnïau cynhyrchu wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (Bydd angen i unrhyw brosiectau gan ymgeiswyr y tu allan i Gymru ddangos budd strategol ystyrlon i Gymru a gadael gwaddol cadarnhaol)

## Faint y gallaf wneud cais amdano?

Mae dyfarniadau gwerth rhwng £50,000 a £750,000 ar gael ar gyfer cynyrchiadau wedi'u sgriptio. Os bydd yn briodol, efallai y byddwn yn derbyn cais am swm uwch, os bydd y prosiect yn dangos buddion strategol eithriadol i'r sector yng Nghymru ac yn bodloni pob un o'n meini prawf cyllido i'r lefel uchaf. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd achosion eithriadol lle y bydd yn bosibl dyfarnu swm llai.

Ar gyfer prosiectau wedi'u sgriptio, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol mai cymhareb Gwariant yng Nghymru i gyllid a ddyfernir o 10:1 yw'r trothwy gofynnol i brosesu unrhyw geisiadau.

Wrth ystyried lefel y cymorth, ystyrir y sgoriau yn erbyn pethau allweddol eraill sydd i'w cyflawni mewn unrhyw asesiad ar gyfer y dyfarniad terfynol yn ogystal â thystiolaeth sy'n dangos mai lefel y cymorth yw'r lleiafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect allu digwydd yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi cyfresi pellach o brosiectau a ariannwyd yn flaenorol, bydd Cymru Greadigol yn disgwyl gweld mwy o enillion ar fuddsoddiad ar gyfer pob un o'r pethau sydd i'w cyflawni gan y prosiect megis cyfleoedd i feithrin sgiliau a Gwariant yng Nghymru.

**Noder:** Ym mhob achos, bydd angen i Cymru Greadigol fodloni ei hun mai'r swm y gwneir cais amdano yw'r lleiafswm sydd ei angen i sicrhau bod y prosiect yn digwydd yng Nghymru.

Ni fydd ein Cronfa Gynhyrchu yn talu costau cynhyrchu unrhyw brosiect yn llawn, waeth beth fo'r gyllideb. Ystyrir bod ceisiadau heb gyllid arall gan y farchnad ynghlwm wrthynt sy'n ceisio cael eu cyllido'n llawn gan Cymru Greadigol neu eu cyllido â chymorth Cymru Greadigol a Chredyd Treth gymwys y DU yn unig, yn anghymwys.

### Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu cynhyrchiad wedi'i sgriptio.

- Cyfres wedi'i sgriptio, cyfresi cyfyngedig neu ffilmiau nodwedd sy'n cael eu cynhyrchu gyda'r bwriad o'u rhyddhau ar y teledu/gwasanaeth ffrydio (antheatraidd).
- Darlledwr/dosbarthwr cydnabyddedig ag enw da sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad.
- Cynllun hyfforddi y cytunir arno â Cymru Greadigol cyn recriwtio unrhyw hyfforddai/prentisiaeth, caffael gan ddarparwyr sgiliau cydnabyddedig yng Nghymru.
- Nifer, ansawdd a hyd y cyfleoedd â thâl i hyfforddeion sydd ynghlwm wrth gytundeb cyllido sydd i'w negodi â Cymru Greadigol a rhaid iddynt fod yn gymesur â maint y cynhyrchiad a gofyniad i gyflawni.
- Rhaid i unrhyw ffi reoli/ffi cynhyrchydd gan ymgeiswyr yng Nghymru fod yn gymesur â chyfanswm y gyllideb ar gyfer gwariant yng Nghymru; nid ystyrir bod ffioedd rheoli/cynhyrchwyr gan ymgeiswyr y tu allan i Gymru yn wariant cymwys yng Nghymru.
- Asesir cyfran y gwariant uwchlaw ac islaw'r llinell yng Nghymru, gyda phwys strategol yn cael ei roi ar y cynyrchiadau hynny sy'n defnyddio gweithwyr llawrydd, cwmnïau cadwyn gyflenwi a darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.
- Disgwylir i'r cynhyrchiad gael ei ardystio o dan brosiect Albert a chyfrannu at brosiect peilot cynaliadwyedd Cymru – *Screen New Deal: Transformation Plan.*

## Heb ei Sgriptio

### Pwy all wneud cais?

- Cwmnïau cynhyrchu wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cwmnïau cynhyrchu wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (efallai yr ystyrir ceisiadau ar sail cydgynhyrchu â chwmni wedi'i leoli yng Nghymru hefyd)

### Faint y gallaf wneud cais amdano?

Mae dyfarniadau gwerth rhwng £50,000 a £300,000 ar gael ar gyfer cynyrchiadau heb eu sgriptio. Os bydd yn briodol, efallai y byddwn yn derbyn cais am swm uwch, os bydd y prosiect yn dangos buddion strategol eithriadol i'r sector yng Nghymru ac yn bodloni pob un o'n meini prawf cyllido i'r lefel uchaf. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd achosion eithriadol lle y bydd yn bosibl dyfarnu swm llai.

Ar gyfer prosiectau heb eu sgriptio, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol mai cymhareb Gwariant yng Nghymru i Ddyfarniad o'r Gronfa Gynhyrchu o 6:1 yw'r trothwy gofynnol i brosesu unrhyw geisiadau.

Wrth ystyried lefel y cymorth, ystyrir y sgoriau yn erbyn pethau allweddol eraill sydd i'w cyflawni mewn unrhyw asesiad ar gyfer y dyfarniad terfynol yn ogystal â thystiolaeth sy'n dangos mai lefel y cymorth yw'r lleiafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect allu digwydd yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi cyfresi pellach o brosiectau a ariannwyd yn flaenorol, bydd Cymru Greadigol yn disgwyl gweld mwy o enillion ar fuddsoddiad ar gyfer pob un o'r pethau sydd i'w cyflawni gan y prosiect megis cyfleoedd i feithrin sgiliau a Gwariant yng Nghymru.

**Noder:** Ym mhob achos, bydd angen i Cymru Greadigol fodloni ei hun mai'r swm y gwneir cais amdano yw'r lleiafswm sydd ei angen i sicrhau bod y prosiect yn digwydd yng Nghymru.

Ni fydd ein Cronfa Gynhyrchu yn talu costau cynhyrchu unrhyw brosiect yn llawn, waeth beth fo'r gyllideb. Ystyrir bod ceisiadau heb gyllid arall gan y farchnad ynghlwm wrthynt sy'n ceisio cael eu cyllido'n llawn gan Cymru Greadigol neu eu cyllido â chymorth Cymru Greadigol a Chredyd Treth gymwys y DU yn unig, yn anghymwys yn awtomatig.

## Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu prosiect heb ei sgriptio.

- Cyfresi cyfyngedig neu ffilmiau nodwedd sy'n cael eu cynhyrchu gyda'r bwriad o'u rhyddhau ar y teledu/gwasanaeth ffrydio (antheatraidd)
- Er mwyn ysgogi twf yn sector cynyrchiadau ffeithiol Cymru; rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru neu rhaid i gwmnïau y tu allan i Gymru fod â chytundeb cydgynhyrchu â chwmni cynhyrchu wedi'i leoli yng Nghymru er mwyn bod yn gymwys
- Portread diwylliannol o Gymru, y Gymraeg neu straeon am Gymru a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol.
- Darlledwr/dosbarthwr cydnabyddedig ag enw da sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad
- Cynllun hyfforddi y cytunir arno â Cymru Greadigol cyn recriwtio unrhyw hyfforddai/prentisiaeth, caffael gan ddarparwyr sgiliau cydnabyddedig yng Nghymru
- Nifer, ansawdd a hyd y cyfleoedd â thâl i hyfforddeion sydd ynghlwm wrth gytundeb cyllido sydd i'w negodi â Cymru Greadigol a rhaid iddynt fod yn gymesur â maint y cynhyrchiad a gofyniad i gyflawni
- Rhaid i unrhyw ffi reoli/ffi cynhyrchydd fod yn gymesur â chyfanswm y gyllideb ar gyfer gwariant yng Nghymru. Efallai y caiff ffioedd yr ymddengys eu bod yn anghymesur o gymharu â chynyrchiadau arferol eu herio wrth asesu eich cynnig.
- Asesir cyfran y gwariant uwchlaw ac islaw'r llinell yng Nghymru, gyda phwys strategol yn cael ei roi ar ddefnyddio gweithwyr llawrydd, cwmnïau cadwyn gyflenwi a darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Cynllun Peilot Hwyluswyr Llesiant Cymru

# Animeiddio

## Pwy all wneud cais?

- Cwmnïau animeiddio wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cwmnïau animeiddio y tu allan i Gymru (Byddwn yn cyllido prosiectau yng Nghymru sy'n cael eu cynhyrchu gan gynhyrchwyr rhyngwladol a all ddangos budd strategol ystyrlon i Gymru a gadael gwaddol cadarnhaol)

Yn y ddau achos, dylech fod yn gwmni cynhyrchu gwaith animeiddio profiadol neu, yn achos unrhyw gwmni newydd, dylai fod gennych dîm rheoli profiadol â hanes y gellir ei ddangos o gyflawni yn y genre ac o leiaf un cynhyrchiad masnachol a ryddhawyd o fewn y tair blynedd diwethaf i ddyddiad y cais.

## Faint y gallaf wneud cais amdano?

Mae dyfarniadau gwerth rhwng £50,000 a £500,000 ar gael i ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu lle mae 50% neu fwy o'r hawliau Eiddo Deallusol yn cael eu perchenogi yng Nghymru.

Y gymhareb lleiafswm dyfarniad yw 8:1 yn erbyn gwariant yng Nghymru. Anogir cydgynyrchiadau â chwmnïau yng Nghymru.

Mae dyfarniadau gwerth rhwng £50,000 a £500,000 ar gael i gwmnïau cynhyrchu y tu allan i Gymru. Y gyfradd lleiafswm ymyrraeth yw 12:1 yn erbyn gwariant yng Nghymru.

**Noder:** Ym mhob achos, bydd angen i Cymru Greadigol fodloni ei hun mai'r swm y gwneir cais amdano yw'r lleiafswm sydd ei angen i sicrhau bod y prosiect yn digwydd yng Nghymru.

Bydd cydgynyrchiadau â rhywfaint o eiddo deallusol a rennir, neu'r prosiectau hynny sy'n dod ag eiddo deallusol y gellir ei adnabod, yn cael sgôr uwch na'r rhai sydd hebddo. Bydd prosiectau lle nad oes unrhyw eiddo deallusol yn cael ei rannu gan Gymru yn cael sgôr is ar y raddfa fasnachol ac, felly, bydd angen iddynt ddangos lefelau uwch mewn meysydd eraill megis datblygu sgiliau, amrywiaeth a chynaliadwyedd er mwyn i'w ceisiadau fod yn llwyddiannus.

## Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu prosiect animeiddio.

- Byddwn yn cefnogi prosiectau y bwriedir eu darlledu ar y teledu (cyfres fel arfer)
- Rhaid mai'r ymgeisydd yw'r prif ddeiliad hawliau ar gyfer y prosiect
- Dylai fod gan y prosiect ddarlledwr/dosbarthwr a gadarnhawyd

- Croesewir prosiectau sy'n cynnig cyfle posibl i ddatblygu eiddo deallusol ymhellach (aml-lwyfan).
- Dylai prosiectau sy'n cynnwys ffilmiau wedi'u hanimeiddio â chyllideb o fwy na £2.5m a/neu y bwriedir iddynt gael eu rhyddhau mewn theatrau, siarad â Cymru Greadigol ynglŷn â chymorth yn y lle cyntaf
- Dylid cytuno â chynllun hyfforddiant gyda Chymru Greadigol cyn recriwtio unrhyw hyfforddai / prentisiaethau, sy'n cyrchu gan ddarparwyr sgiliau cydnabyddedig yng Nghymru

## Sut rydym yn cefnogi Ffilmiau Nodwedd sy'n cael eu cynhyrchu i'w rhyddhau mewn theatrau?

Yn ogystal â'r amrywiaeth o gynnwys a genres a gefnogir gan ein Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol, rydym wedi ymrwymo i weld ffilmiau hyd nodwedd a rhaglenni dogfen nodwedd a wnaed yng Nghymru a fwriedir ar gyfer rhyddhau theatrig, ffynnu a ffynnu. Gyda'r nod yma mae Cyllid Cynhyrchu Ffilmiau Nodwedd, sy'n gyfuniad o gronfeydd **Llywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol a'r Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru(CCC),** yn cael ei ddarparu gan Ffilm Cymru Wales.

Pwy gall gwneud cais?

Er mwyn gwneud cais i'r gronfa hon mae'n i chi fodloni'r canlynol:

- Prosiect ffilm nodwedd wreiddiol gyda'r bwriad i'w rhyddhau yn y sinema
- Prosiect a fyddai'n gallu cymhwyso fel un Brydeinig drwy'r Prawf Diwylliannol, un o gytundebau cyd-gynhyrchu swyddogol y DU NEU'R Confensiwn Ewropeaidd ar Gyd-gynhyrchu.
- Awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd yn gysylltiedig â'r prosiect, a'r prif gynhyrchydd yn berson gwahanol i'r awdur a'r cyfarwyddwr
- Talent a anwyd neu sy'n seiliedig yng Nghymru yn rôl y prif awdur, cynhyrchydd a/neu gyfarwyddwr. Bydd prosiectau sydd â thalent o Gymru mewn rôl cyd-gynhyrchydd yn cael eu hystyried os yw'r prosiect yn adlewyrchu dilyniant clir i'r talent o Gymru, naill ai o ran cyllideb, genre, a/neu bartneriaethau
- Awduron, cyfarwyddwyr, a chynhyrchwyr ar eich prosiect sydd dros 18 oed ac nid mewn addysg amser llawn
- Yn berchen ar yr hawliau yn y prosiect neu fod yn y broses o gael yr hawliau (gan gynnwys unrhyw hawliau sylfaenol).
- Yn gallu gwneud cais drwy gwmni sydd wedi ei gofrestru ac yn cael ei reoli'n ganolog yn y DU. Y cynhyrchydd ddylai arwain y cwmni hwn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyd-gynyrchiadau rhyngwladol cymwys Prydeinig, sy'n cael eu croesawu
- Profiad perthnasol o ffilm neu deledu yn eich tîm.
- Cynllun dichonadwy i'r ffilm gael ei ariannu'n llawn o fewn chwe mis
- Fel arfer bydd gennych o leiaf ddeuddeg wythnos cyn i chi ddechrau ar y prif waith ffotograffiaeth Yn ogystal â hyn, mae Ffilm Cymru yn canolbwyntio ei fuddsoddiad ar brosiectau sy'n cyd-fynd ag un neu fwy o'r canlynol:

Blaenoriaethau Cyllido Ffilmiau

- Gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru mewn cyfnod cynnar yn eu gyrfaoedd
- Ffilmiau, sy'n cael eu harwain gan wneuthurwyr ffilmiau sydd wedi'u tangynrychioli a/neu yr uniaethir â nhw gan gynulleidfaoedd sydd yn draddodiadol wedi tan-wasanaethu gan ffilmiau nodwedd7 gan gynnwys ffilmiau Cymraeg
- Ffilmiau sydd â gwerth artistig cryf, sy'n mentro o ran talent, cynnwys neu ffurf y byddai'r sector masnachol yn ei chael yn anoddach i'w cefnogi8
- Ffilmiau sy'n darlunio Cymru a diwylliant Cymru mewn ffyrdd newydd ac anghonfensiynol.
- Rhaid i bob ffilm sy'n derbyn buddsoddiad Cymru Greadigol wario isafswm o 6:1 (cymhareb gwariant cynhyrchu i ddyfarnu) ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru

Am faint allaf i wneud cais?

- Gall Ffilm Cymru ddyfarnu hyd at uchafswm o £600,000 (hyd at £400,000 o ariannu Cymru Greadigol a £200,000 o Gronfa Loteri(CCC), ond bydd y rhan fwyaf o ddyfarniadau rhwng £150,000 - £400,000. Ni allwn ariannu prosiectau yn llawn a byddem fel arfer yn disgwyl i'n buddsoddiad beidio â bod yn fwy na 50% o'ch cyllideb.

Ewch i dudalen we'r gronfa ar wefan Ffilm Cymru Wales am ragor o fanylion (Datblygu & Chynhyrchu Ffilm | Ffilm Cymru (ffilmcymruwales.com)

# Gemau

## Pwy all wneud cais?

- Cwmnïau datblygu gemau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cwmnïau datblygu gemau y tu allan i Gymru (byddwn yn cyllido prosiectau yng Nghymru sy'n cael eu cynhyrchu gan gynhyrchwyr rhyngwladol a all ddangos budd strategol ystyrlon i Gymru a gadael gwaddol cadarnhaol.)

Yn y ddau achos, dylech fod yn gwmni datblygu gemau profiadol neu, yn achos unrhyw gwmni newydd, dylai fod gennych dîm rheoli profiadol â hanes y gellir ei ddangos o gyflawni yn y genre ac o leiaf un cynhyrchiad masnachol a ryddhawyd o fewn y tair blynedd diwethaf i ddyddiad y cais.

## Faint y gallaf wneud cais amdano?

Mae dyfarniadau gwerth rhwng £50,000 a £500,000 ar gael i ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu lle mae 50% neu fwy o'r hawliau Eiddo Deallusol yn cael eu perchenogi yng Nghymru.

Y gymhareb lleiafswm dyfarniad yw 8:1 yn erbyn gwariant yng Nghymru. Mae prosiectau rhannu eiddo deallusol â chwmnïau yng Nghymru yn dderbyniol ac maent yn cael eu hannog.

Mae dyfarniadau gwerth rhwng £50,000 a £500,000 ar gael i gwmnïau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Y gymhareb lleiafswm dyfarniad yw 12:1 yn erbyn gwariant yng Nghymru.

Bydd cydgynyrchiadau â rhywfaint o eiddo deallusol a rennir gan fusnesau yng Nghymru, neu'r prosiectau hynny sy'n dod ag eiddo deallusol neu fudd strategol arall y gellir ei adnabod, yn cael sgôr uwch na'r rhai sydd hebddo. Efallai y bydd cwmnïau sy'n barod i sefydlu canolfan barhaol yng Nghymru yn gallu cael y lefel uwch o ddyfarniad.

### Yr hyn rydym yn edrych amdano wrth asesu prosiect gemau.

- Rhaid mai'r bwriad yw dosbarthu'r gêm fel cynnyrch masnachol, ar gonsol, dyfais symudol, cyfrifiadur personol neu sianel arall
- Ni ellir cefnogi gemau sy'n cynnwys elfennau gamblo nac elfennau eraill sy'n cael eu hadolygu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar hyn o bryd o dan yr adolygiad o niweidiau ar-lein (e.e. cistiau trysor
- Rhaid bod gan gemau y potensial i'w dosbarthu a'u gwerthu'n rhyngwladol
- Anogir prosiectau sydd â'r potensial i ailddefnyddio eiddo deallusol mewn genres eraill
- Cynllun hyfforddi i'w gytuno â Chymru Greadigol cyn unrhyw recriwtio hyfforddai / prentisiaethau, sy'n cyrchu o ddarparwyr sgiliau cydnabyddedig yng Nghymru.

## Beth arall y dylwn ei ystyried cyn gwneud cais am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol?

Er mwyn asesu a allai eich prosiect fod yn gymwys i gael cymorth cyllid cynhyrchu, dylech fod wedi ystyried y canlynol eisoes:

- Cyfanswm y gyllideb gynhyrchu
- Y gyllideb ar gyfer gwariant yng Nghymru
- Crynodeb o'ch prosiect a manylion talent allweddol ynghlwm
- Dyddiadau Dechrau a Gorffen (gan gynnwys camau Dylunio a dyddiadau rhyddhau alffa/beta ar gyfer gemau)
- Manylion unrhyw gontractau cymorth dilynol ar gyfer prosiectau gemau sydd i'w cyflwyno yng Nghymru
- Cadarnhad bod cyhoeddwr/darlledwr/dosbarthwr yn gysylltiedig â'r prosiect.
- Manylion y cynllun cyllid a gadarnhawyd – gan gynnwys llif arian parod y prosiect (dylai'r llif arian parod ddangos y bwlch cyllido rydych yn gwneud cais mewn perthynas ag ef)

- Faint o gyllid sydd ei angen a pham mai'r swm hwn yw'r lleiafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect allu mynd yn ei flaen
- Crynodeb o'ch prosiect

## Cyllideb Fanwl ar gyfer y Cynhyrchiad a Gwariant yng Nghymru

Dylech gynnwys y fersiwn ddiweddaraf o'r gyllideb (gan gynnwys dadansoddiad o wariant yng Nghymru a gwariant heb fod yng Nghymru) a chynllun cyllid cyfatebol sy'n nodi pa gyllid a gadarnhawyd a darparu telerau amlinellol, amcangyfrifon o werthiannau (os byddant gennych) ac amserlen gynhyrchu arfaethedig.

- Diffinnir Gwariant yng Nghymru fel unrhyw wariant cynhyrchu hanfodol ar weithlu (staff, cast a chriw) sydd â phrif breswylfa yng Nghymru a chyflenwyr/cwmnïau sydd â chanolfan barhaol yng Nghymru (safle hirdymor, staff parhaol wedi'u lleoli yng Nghymru a chyfarpar wedi'i leoli yng Nghymru).

  Am ddiffiniad manwl llawn o Wariant yng Nghymru ac enghreifftiau o dablau (y gellir eu cynnwys yn eich pecyn gwneud cais), gweler Atodiad A.

- Ffioedd cynhyrchwyr a ffioedd rheoli – Dylech gynnwys ffioedd a gorbenion rheoli/cynhyrchydd rhesymol yn eich cyllideb. Noder mai dim ond fel cyfran resymol o gyfanswm y gyllideb ar gyfer gwariant yng Nghymru y byddwn yn gwneud cyfraniad at y ffioedd hyn ar gyfer cwmnïau cynhyrchu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac na fyddwn yn rhoi cyllid ar gyfer symiau sy'n ymwneud â'r costau rhedeg cyffredinol sy'n gysylltiedig â'ch busnes. Dylai ffioedd a gorbenion cynhyrchydd fod yn gymesur â lefel y gwaith a wneir a maint a natur y prosiect arfaethedig.

## Asiantiaid gwerthu a/neu ddosbarthwyr

Rydym yn disgwyl ichi fod wedi cadarnhau, neu wedi cael, datganiad ysgrifenedig o ddiddordeb mawr asiant gwerthu a/neu ddosbarthwr ar gyfer eich prosiect cyn gwneud cais. Os nad ydych yn bwriadu cysylltu asiant gwerthu â'r prosiect cyn ei gwblhau, dylech allu dangos pam rydych wedi gwneud y dewis strategol hwn a darparu strategaeth gwerthu a dosbarthu hefyd gyda'ch cais.

## Cynllun cyllid

Rhaid bod gennych becyn cyllid sydd wedi'i ddatblygu'n llawn ar waith (gan gynnwys datganiad ysgrifenedig o ddiddordeb mawr a sicrhawyd neu gyllid ar y cyd a gadarnhawyd gan ffynonellau preifat neu gyhoeddus eraill) cyn gwneud cais. Dylai rhan olaf eich cynllun cyllid ganolbwyntio ar Cymru Greadigol. Ni allwn fod yn y safle cyntaf ar brosiectau.

## Llif arian parod y prosiect

Dylech ddarparu rhagamcan o lif arian parod ar gyfer eich prosiect sy'n nodi'r gwariant arfaethedig a'r gwariant arfaethedig yng Nghymru ac sy'n ein galluogi i gadarnhau'r bwlch yn eich cynllun ariannol rydych yn gwneud cais am gyllid mewn perthynas ag ef. Bydd angen darparu tystiolaeth o'r ffordd y darperir ar gyfer grant Cymru Greadigol (a Chredyd Treth y DU lle y bo'n gymwys) cyn i gais allu symud ymlaen i'r cam arfarnu.

## Ad-dalu Cyllid Cynhyrchu

Mae Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol wedi'i gynllunio fel cynllun dyfarnu grant ac nid yw'n ad-daladwy fel arfer. Fodd bynnag, ceidw Cymru Greadigol yr hawl i gynnig elfennau ad-daladwy neu ddyfarniad sydd i'w ad-dalu'n llawn yn dilyn y broses asesu fewnol.

## Eiddo Deallusol

Os bydd eich cais yn dibynnu ar rannu eiddo deallusol, byddwn yn gofyn ichi gadarnhau'r gyfran honno fel rhan o'r broses gwneud cais. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau o ran defnyddio neu gadw'r eiddo deallusol arfaethedig, dylech ddatgan hyn fel rhan o'ch cais.

## Cynllun Cyhoeddusrwydd a Rhestr Gydnabod

Wrth wneud cais am y cyllid hwn, byddwn yn gofyn ichi gytuno i hyrwyddo'r cymorth rydych wedi'i gael gan Cymru Greadigol. Bydd eich llythyr dyfarnu yn cynnwys gofyniad i gytuno i wneud y canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â Cymru Greadigol i gytuno ar gynllun cyhoeddusrwydd, y bydd elfennau ohono yn cynnwys (a) cynnwys logo Llywodraeth Cymru a geiriad a gymeradwywyd yn y rhestr gydnabod ar y diwedd; a (b) asedau ar ffurf fideos a delweddau [o'r cynhyrchiad ac sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad] a ddarperir gan yr ymgeisydd i'w defnyddio gan Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau cyhoeddusrwydd (ar ôl cael rhybudd rhesymol ymlaen llaw) yn rheolaidd ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a darparu mynediad i luniau llonydd swyddogol o'r cynhyrchiad, deunydd ffotograffig o'r tu ôl i'r llenni yn ogystal â deunydd fideo o'r cynhyrchiad terfynol yn unol â chais rhesymol Swyddog Llywodraeth Cymru at ddibenion hyrwyddo Cymru fel lleoliad ffilmio a rhoi cyhoeddusrwydd i gymorth Llywodraeth Cymru

Bydd yn ofynnol ichi roi cydnabyddiaeth i Cymru Greadigol/Llywodraeth Cymru ar ffurf a gaiff ei nodi yn y cytundeb cyllido.

### Ardystiad y Diwydiant

Rhaid i ffilmiau nodwedd a rhaglenni dogfen nodwedd allu bod yn gymwys i gael eu hardystio fel ffilm Brydeinig drwy Atodlen 1 i Ddeddf Ffilmiau 1985 (Y Prawf Diwylliannol) neu gael tystysgrif gyfatebol y cytunwyd arno. Dylid dangos hyn fel rhan o'r cais llawn.

Rhaid i gemau fideo allu cael eu hardystio o dan system PEGI. Dylai datblygwyr amlinellu pa sgôr PEGI y maent yn ceisio ei chael. Caiff hyn ei restru yn nhelerau'r llythyr dyfarnu a rhaid inni gael ein hysbysu os bydd y sgôr yn newid i lefel uwch na'r un y cytunwyd arni pan wnaed y cais wrth i'r gêm gael ei datblygu. Bydd angen ichi ein hysbysu am eich sgôr cyn gynted ag y byddwch yn ei chael fel rhan o'ch telerau.

## Pa gostau sy'n anghymwys i gael y cyllid hwn?

- Unrhyw gostau cyfalaf megis gwaith datblygu neu adnewyddu adeiladau ar raddfa fawr
- Costau sefydlu, e.e. cyfarpar a swyddfeydd, costau recriwtio ac ati
- Costau yr eir iddynt cyn dyddiad dechrau'r prosiect y cytunwyd arno y cyfeirir ato yn y llythyr dyfarnu
- Costau dileu swyddi
- TAW y gellir ei hadennill
- Dyled hanesyddol sylweddol;
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos credoau sefydliadau gwleidyddol neu sefydliadau ffydd
- Unrhyw beth sy'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth neu gyngor Llywodraeth Cymru;
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru
- Costau a ariennir o ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus
- Swm i wneud iawn am incwm a gollwyd neu ailchwyddo ein cronfeydd wrth gefn
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur am ddim neu sy'n ei annog

## Sut y gallaf wneud cais?

Mae proses 3 cham ar gyfer gwneud cais am gyllid o'r Gronfa hon.

- Asesiad cychwynnol o gymhwystra
- Y cam datgan diddordeb
- Y cam gwneud cais,

### Asesiad Cychwynnol o Gymhwystra

I ddechrau, dylech ddefnyddio ein gwiriwr cymhwystra ar-lein neu ddarllen yr adran ‘Pwy sy'n Gymwys i Wneud Cais’ yn y ddogfen ganllaw hon er mwyn cadarnhau bod gennych gynhyrchiad sy'n bodloni ein meini prawf.

Os byddwch yn bodloni pob un o'r meini prawf cymhwyso, gallwch ofyn am ffurflen Datgan Diddordeb sy'n gofyn i chi ddisgrifio eich prosiect yn fanylach.

Cyn ichi ofyn am ffurflen datgan diddordeb mae gennych yr opsiwn i drafod eich cynnig ag un o Reolwyr Datblygu Sector Cymru Greadigol drwy anfon neges e-bost i

CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Gall ein tîm roi cyngor ar gymhwystra a, lle y bo'n briodol, roi arweiniad pellach ar eich cynnig.

## Y Cam Datgan Diddordeb

Ar ôl iddynt dderbyn ffurflen Datgan Diddordeb, bydd angen i ymgeiswyr ateb pob un o adrannau'r ffurflen a'u cyflwyno i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

Gyda chyllideb gyfyngedig a diddordeb mawr yn y gronfa, dim ond nifer penodol o'r Datganiadau o Ddiddordeb a gawn y gallwn eu prosesu i'w trin fel cais llawn. Fodd bynnag, byddwn yn cynnig adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ei ystyried os byddant yn dymuno gwneud cais arall yn y dyfodol. Dim ond os ymdriniwyd â'r rhesymau pam y bu'n aflwyddiannus yn flaenorol y byddwn yn derbyn Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer yr un prosiect.

Dylech ddarllen yr holl wybodaeth yn y ddogfen ganllaw hon cyn cwblhau Ffurflen Datgan Diddordeb.

Ar ôl ichi gyflwyno eich Ffurflen Datgan Diddordeb, efallai y cewch eich gwahodd i gyflwyno cais llawn neu'ch hysbysu na allwn brosesu eich prosiect ymhellach. Bydd Cymru Greadigol yn rhoi gwybod ichi am y rheswm dros y penderfyniad hwn mewn perthynas â'r ail bwynt.

**Noder** – Gallai'r gyllideb ar gyfer y gronfa hon fod wedi'i neilltuo ar unrhyw adeg, a all olygu na fyddwn yn prosesu eich cais.

## Cam Gwneud Cais

### Contract Economaidd

Fel rhan o'r broses gwneud cais, rhaid ichi gwblhau contract economaidd. Gweler yr egwyddorion cyllido lefel uchel am ragor o wybodaeth am y contract. Bydd un o reolwyr datblygu busnes Cymru Greadigol yn eich tywys drwy'r broses hefyd.

### Dogfennaeth Gwneud Cais Ofynnol

Gofynnir ichi ddarparu rhagor o wybodaeth ategol, gan gynnwys:

- Cyfanswm y gyllideb gynhyrchu.
- Y gyllideb ar gyfer gwariant yng Nghymru (Diffinnir Gwariant yng Nghymru fel gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir gan fusnesau a gweithwyr llawrydd unigol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n gweithredu o Gymru neu yng Nghymru), gan ddefnyddio'r templed yn y ddogfen ganllaw hon.
- Dyddiadau dechrau a gorffen (gan gynnwys camau dylunio a dyddiadau rhyddhau alffa/beta ar gyfer gemau), a'r amserlen gynhyrchu.

- Manylion unrhyw gontractau cymorth dilynol ar gyfer prosiectau gemau sydd i'w cyflwyno yng Nghymru.
- Cadarnhad bod cyhoeddwr/darlledwr/dosbarthwr yn gysylltiedig â'r prosiect. (bydd angen copïau o Gytundebau)
- Manylion y cynllun cyllid a gadarnhawyd – gan gynnwys llif arian parod y prosiect (dylai'r llif arian parod fod yn fisol a dylai ddangos y bwlch cyllido y mae'r ymgeisydd yn gofyn am gyllid mewn perthynas ag ef, a dylai hefyd nodi sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu'r cyllido'r 'bwlch' yn y grant).
- Rhagolygon gwerthiant. Os nad yw ar gael, rhowch fanylion am y gwledydd y bydd y cynhyrchiad yn cael eu dosbarthu /neu ffigurau gwylio/tanysgrifio cymharol ac ati).Faint o gyllid sydd ei angen a pham mai'r swm hwn yw'r lleiafswm sydd ei angen er mwyn i'r prosiect allu mynd yn ei flaen.
- Crynodeb o'r prosiect a manylion talent allweddol wedi'u hatodi.
- Copïau o gyfrifon statudol yr ymgeisydd a'i riant-gwmni neu ei gwmni cysylltiedig, os yw'n briodol, ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys cyfrifon rheoli ar gyfer y cyfnod o'r cyfrifon statudol diwethaf hyd yma.
- Os bydd yr ymgeisydd yn Gyfrwng at Ddibenion Arbennig (SPV), bydd angen inni gael copïau o gyfrifon statudol llawn y rhiant-gwmni ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Os oes busnesau eraill o dan reolaeth neu berchenogaeth gyffredin, darparwch y cyfrifon diweddaraf, gan gynnwys sefyllfaoedd segur.
- Y prawf diwylliannol, neu brawf tystiolaeth PEGI.

<u>Pwysig – y ddogfennaeth sydd angen yn ystod ac yn dilyn y prosiect</u>

- • Gofynnir i chi lunio tystiolaeth ysgrifenedig bod y cynhyrchiad wedi creu o leiaf X o leoliadau hyfforddai â thâl ar gyfer hyfforddeion yng Nghymru, drwy Gynllun Lleoliad Hyfforddai cychwyniad Cynhyrchiad wedi ei gwblhau, y cytunwyd arno gyda Chymru Greadigol, i'w ddarparu o leiaf 10 diwrnod cyn cychwyn prif ffotograffiaeth. Gall y cynllun lleoliad hyfforddai gynnwys y lefel mynediad a lleoliadau uwchsgilio ond rhaid iddynt gynnwys o leiaf un lleoliad ar gyfer hyfforddai o gynllun prentisiaeth gymeradwy.
- • Rhaid i bob lleoliad hyfforddai ddangos recriwtio amrywiol, cynhwysol, teg ac agored.
- • Bydd adolygiadau lleoliad hyfforddai Cymru Greadigol bellach hanner ffordd ac ar y cam cyfweliad ymadael a disgwylir i ymgeiswyr ddarparu Adroddiad Lleoliadau Hyfforddai Diwedd y Cynhyrchiad wedi'u cwblhau, Adolygiad Cydraddoldeb a Monitro Amrywiaeth Hyfforddai Cynhyrchiad ac Adolygiadau Perfformiad Diwedd Cynhyrchiad hyfforddai Unigol o fewn 10 diwrnod ar ôl cwblhau'r holl leoliadau hyfforddiant.
- • I ddarparu rhestr Uned lawn ar ôl cwblhau'r cynhyrchiad
- • Darparu rhestr wariant lawn o Gymru yn y cyfnod hawlio

Yn olaf, anfonir ffurflen gais atoch a gofynnir ichi ei chwblhau. Bydd angen ichi ateb pob adran o'r ffurflen a chynnwys yr holl wybodaeth ategol y gofynnir amdani, gan gynnwys manylion ariannol llawn ac amserlenni talu arfaethedig â cherrig milltir ar gyfer y grant. Dylid cyflwyno ffurflenni cais wedi'u cwblhau i CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru

## Arfarnu

Ar ôl i gais llawn gael ei gyflwyno, bydd eich Rheolwr Datblygu Busnes o Cymru Greadigol yn arfarnu eich cais ac yn ei baratoi i'w gyflwyno i banel cynghori perthnasol.

Bydd ceisiadau a gwybodaeth ategol yn destun proses Diwydrwydd Dyladwy lawn a gwiriadau ariannol ar gyfer asesu.

Caiff prosiectau y mae panel wedi argymell y dylent gael cymorth eu cyflwyno wedyn i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo'n derfynol.

Ar ôl cael cymeradwyaeth Gweinidogion, caiff ymgeiswyr eu hysbysu ac anfonir llythyrau dyfarnu at ymgeiswyr llwyddiannus.

## Cytuno ar y llythyr dyfarnu

Contract yw'r llythyr dyfarnu. Mae'n ofynnol ichi dderbyn telerau'r llythyr a'r atodlenni a fydd yn nodi'r canlynol:

- Pa gyllid sydd wedi'i ddyfarnu ichi, y rhestr hawliadau a'r telerau ar gyfer rhyddhau'r cyllid hwnnw.
- Dyddiadau dechrau a gorffen diffiniedig y prosiect.
- Eich ymrwymiadau y cytunwyd arnynt i ddatblygu hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y prosiect.
- Bydd angen llofnodi llythyrau dyfarnu a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru cyn i'r prosiect ddechrau.
- Eich cyfrifoldebau i'n hysbysu'n rhagweithiol am unrhyw newidiadau a all effeithio ar y cyllid, megis methiant i gyflawni erbyn terfynau amser, newidiadau i'r ffordd y mae eich busnes yn cael ei reoli ac ati.
- Allbynnau eich prosiect, a gaiff eu mesur am ddwy flynedd ar ôl i'r contract ddod i ben neu o ddyddiad terfynu Cyfrwng at Ddibenion Arbennig yn achos cwmnïau cynhyrchu, p'un bynnag a ddaw gyntaf.

## Dogfennau pellach sydd eu hangen ar gytundeb ariannu

Sicrhewch cyn i chi wneud cais am gyllid, eich bod mewn sefyllfa i fodloni'r gofynion gweinyddol canlynol ar gyfnod y cytundeb cyllido:

• Tystiolaeth ysgrifenedig bod y cynhyrchiad wedi creu o leiaf X leoliadau hyfforddai â thâl ar gyfer hyfforddeion wedi eu lleoli yng Nghymru, fel y diffinnir yn y Galwadau i Weithredu (fel y cyfeirir atynt ym mharagraff (c) isod).

• Tystiolaeth drwy gyfrwng o Gynllun Lleoliad Hyfforddai cychwyniad Cynhyrchiad wedi'i gwblhau, y cytunwyd arno â Chymru Greadigol, i'w ddarparu o leiaf 10 diwrnod cyn cychwyn prif ffotograffiaeth.

• Cytuno i gynnal cyfweliad ymadael ag aelodau o dîm Cymru Greadigol cyn y dyddiad hawlio terfynol, i roi adborth ar y profiad o saethu'r cynhyrchiad yng Nghymru, amlinellu'r pethau cadarnhaol, a thynnu sylw at unrhyw feysydd y gellid gwella arnynt.

• Cytuno gydag adolygiadau lleoliadau hyfforddai Cymru Greadigol hanner ffordd ac ar y cam cyfweld ymadael.

# Amserlenni

Ein nod yw darparu penderfyniad o fewn wyth wythnos i gael cais wedi'i gwblhau â dogfennaeth ategol. Os bydd angen inni ofyn am wybodaeth atodol, efallai y bydd y broses hon yn cymryd mwy o amser.

# Talu a Monitro

## Rhestr Hawliadau

Bydd y rhestr hawliadau y cytunwyd arni wedi'i thrafod â'r Rheolwr Datblygu Busnes yn ystod y broses gwneud cais ac wedi'i chynnwys yn y llythyr dyfarnu yn amodol ar ei chymeradwyo.

## Talu a Monitro

- Mae angen bodloni amodau talu fel y'u nodir yn rhestr y llythyr dyfarnu. Ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i adolygu'r cyllid a ddyfarnwyd os na chydymffurfir â rhestrau y cytunwyd arnynt
- Telir y cyllid fel y nodir yn y llythyr dyfarnu.
- ‘Costau a Dalwyd’ yw costau nwyddau sy'n cael eu clirio drwy eu talu neu sy'n cael eu setlo gennych fel arall. Bydd angen tystiolaeth o gostau a dalwyd ar gyfer pob sefydliad.
- Anfonir ffurflenni hawlio ar gais gan y swyddog monitro a bennwyd ichi. Caiff manylion yr hyn y bydd angen ichi ei ddarparu ar y cam hawlio eu cynnwys yn eich llythyr dyfarnu
- Pan gyflwynir hawliad sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth ategol, byddwn yn anelu at brosesu'r taliad o fewn 20 diwrnod gwaith.

## Monitro Ar Ôl Cwblhau

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i werthuso llwyddiant y grant hwn. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn ystyried y ffordd y mae'r gweithgareddau wedi'u cyflawni a'u heffaith. Bydd yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau yn uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn ystyried a yw effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd wedi'u gwireddu.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru neu drydydd parti yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu er mwyn ichi roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Caiff y wybodaeth hon ei dadansoddi a'i chyflwyno yn ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

### Ad-dalu'r Grant

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd angen ad-dalu'r grant yn rhannol neu'n llawn os na fyddwch yn cydymffurfio â thelerau ac amodau unrhyw gyllid a ddyfernir.

## Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rôl allweddol wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y'i nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae blaenoriaethau o ran y Gymraeg yn un o nifer o feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hasesiad o gydnawsedd strategol wrth asesu prosiectau.

## Y Weithdrefn Gwyno

Nid oes unrhyw broses apelio ar gyfer y cyllid hwn.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dengys amcanion y Ddeddf sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Dengys y saith nod llesiant y Gymru rydym am ei chreu. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd cyfeirio at y nodau hyn ac esbonio sut y bydd eich prosiect yn eu cyflawni yn bwysig wrth asesu cais.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Sicrhewch eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Nodiadau Cyfarwyddyd', y 'Contract Economaidd' a'r 'Hysbysiadau Preifatrwydd' **cyn** ichi ddechrau ar y cais.

- Dolen i Hysbysiad Preifatrwydd Cyllid Grant
- Dolen i  Hysbysiad Preifatrwydd Hyfforddeion Cymru Greadigol

## Rheoli Cymorthdaliadau'r DU

Darperir y cyllid drwy gynllun cymhorthdal cofrestredig Llywodraeth Cymru, ‘Cynllun Cymorth Diwylliannol a Chreadigol Cymru’, SC10468. Cynllun Cymorth Diwylliannol a Chreadigol Cymru | LLYW.CYMRU

Mae'n rhaid ichi sicrhau bod y defnydd o'r cyllid yn gyson â'r cytundebau perthnasol yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd y mae'r DU yn rhan ohono, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol.

Fel rhan o'ch cais, bydd angen ichi roi manylion am unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i gael.

## Rhagor o Wybodaeth

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach am Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol, neu os hoffech gael y wybodaeth mewn fformat gwahanol, anfonwch neges e-bost i

CymorthAriannuCymruGreadigol@llyw.cymru.

# Atodiad A

## Gwariant yng Nghymru

Diffinnir Gwariant yng Nghymru fel unrhyw wariant cynhyrchu hanfodol ar weithlu (staff, cast a chriw) sydd â phrif breswylfa yng Nghymru, a chyflenwyr/cwmnïau sydd â chanolfan barhaol yng Nghymru (safle hirdymor, staff parhaol wedi'u lleoli yng Nghymru a chyfarpar wedi'i leoli yng Nghymru).

Cymru Greadigol sydd biau'r penderfyniad terfynol o ran yr hyn a ystyrir yn Wariant cymwys yng Nghymru a'r hyn yr ystyrir nad yw'n Wariant cymwys yng Nghymru, a neb arall. Mae unrhyw unigolion sy'n cael eu cyflogi ar y cynhyrchiad neu unrhyw wariant sy'n ymwneud â chynhyrchu nad yw'n ateb y diffiniad hwn wedi'u heithrio/wedi'i eithrio o gyfrifiad Gwariant yng Nghymru a cheidw Cymru Greadigol yr hawl i ddiystyru costau o'r fath. Dylai ymgeiswyr ymgynghori â Cymru Greadigol yn y lle cyntaf os na fyddant yn siŵr a yw unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflenwyr, amser staff, cast neu griw yn cyfrif tuag at Wariant cymwys yng Nghymru.

Cyflenwyr – RHAID i unrhyw fusnes sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y cynhyrchiad hwn allu dangos ei fod wedi gweithredu o ganolfan gofrestredig yng Nghymru lle mae o leiaf 1 cyflogai Cyfwerth ag Amser Llawn sydd yn breswyl yng Nghymru(CALl) wedi cael ei gyflogi, am o leiaf 6 mis cyn y dyddiad hawlio. Rhaid i unrhyw gyflenwr newydd yng Nghymru allu darparu tystiolaeth o brydles/cytundeb rhentu a lofnodwyd ar gyfer eiddo â chyfeiriad yng Nghymru, am o leiaf 12 mis, erbyn cyfnod gras y cytunwyd arno â Cymru Greadigol. Os na fydd y cyflenwyr yn bodloni'r amodau hyn erbyn diwedd y cyfnod gras, bydd yr holl wariant cysylltiedig yn ystod y cyfnod gras yn annilys. Rhaid i fusnesau allu darparu tystiolaeth o gontractau cyflogaeth ar gyfer o leiaf 1 CALl yn y cyfeiriad cofrestredig yng Nghymru.

Nid ystyrir bod costau yr eir iddynt gan yr ymgeisydd na'r cyflenwr mewn cysylltiad ag unrhyw nwyddau a gwasanaethau y tu allan i Gymru (e.e. gwestai a llety) yn gymwys. **Efallai yr ystyrir bod costau yr eir iddynt gan gyflenwyr nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru mewn cysylltiad â nwyddau a gwasanaethau o Gymru yn gymwys. Er enghraifft, gallwn gyfrif gwariant ar y gwestai a theithio o fewn Cymru sydd wedi eu bwcio gan asiantaeth y tu allan i Gymru, ond ni fyddwn yn cyfri eu ffi tuag at wariant Cymru, a lle mae talent Cymru'n cael ei gynrychioli gan asiantaeth y tu allan i Gymru, does dim modd cynnwys ffioedd yr asiantaeth a bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad Cymreig y dalent. Rhaid darparu dadansoddiad er mwyn hawlio yn yr amgylchiadau hyn.**

Gweithwyr llawrydd – Cast a Chriw – Diffinnir gweithiwr llawrydd fel cyflogai nad yw'n cael ei gyflogi gan fusnes sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i'r cynhyrchiad, ond sy'n cael ei gyflogi a'i dalu'n uniongyrchol gan y cynhyrchiad am ei wasanaethau ac sy'n byw'n barhaol mewn cyfeiriad yng Nghymru. Bydd yn ofynnol i'r tîm cynhyrchu gadarnhau statws preswylio gweithwyr llawrydd cyn iddynt gael eu cyflogi a bydd yn ofynnol iddynt roi gwybod amdano fel elfen o'r hawliad.Efallai y bydd yn ofynnol ichi ddarparu tystiolaeth o gymhwystra cyflogeion unigol y mae cyllid yn cael ei hawlio ar eu cyfer fel cyflogeion wedi'u lleoli yng Nghymru er mwyn bodloni gofynion “budd i Gymru”. **Gall Per Diems cael eu cynnwys yn unig le mae tystiolaeth unigolion o wariant gwirioneddol yng Nghymru wedi ei ddarparu (e.e. derbynneb bwyty )**

Un o amcanion y cyllid hwn yw sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl i gyflogeion cynhyrchu wedi'u lleoli yng Nghymru ac ar eu rhan. Rhaid i'r ymgeisydd geisio cyflogi staff cynhyrchu wedi'u lleoli yng Nghymru lle y bo'n bosibl ac, at ddibenion hawlio'r dyfarniad hwn, rhaid iddo allu dangos bod o leiaf 51% o'r staff sy'n cael eu cyflogi ar y cynhyrchiad hwn yn byw yng Nghymru.

I'r perwyl hwn, bydd yn ofynnol i'r tîm cynhyrchu ddarparu, gyda phob hawliad, restr uned gynhyrchu sy'n cynnwys, o leiaf, enw, teitl swydd, cwmni a chod post ar gyfer POB cyflogai. Os bydd cyflogai yn cael ei dalu gan fusnes wedi'i leoli yng Nghymru, bydd cyfeiriad y busnes yn ddigon.

Mae enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno gwybodaeth am Wariant yng Nghymru mewn unrhyw gais fel a ganlyn:

**Tabl 1: Tabl Gwariant yng Nghymru – cynyrchiadau Wedi'u Sgriptio neu Heb eu Sgriptio**

| Math o Gost | Gwariant heb fod yng Nghymru | Gwariant yng Nghymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Sgript | | | |
| Cynhyrchydd/Cyfarwyddwr | | | |
| Artistiaid | | | |
| Uned Gynhyrchu | | | |
| Cyfarwyddwyr Cynorthwyol/Parhad | | | |
| Criw Camerâu | | | |
| Criw Sain | | | |
| Criw Goleuadau | | | |
| Adran Gelf | | | |
| Wardrob/Coluro | | | |
| Deunyddiau'r Adran Gelf | | | |
| Deunyddiau Wardrob/Coluro | | | |
| Cyfarpar Cynhyrchu | | | |
| Lleoliadau/Stiwdio | | | |
| Cyfleusterau Cynhyrchu Eraill | | | |
| Teithio a Thrafnidiaeth | | | |
| Gwesty/Byw | | | |
| Criw Golygu | | | |
| Lluniau Ôl-gynhyrchu | | | |
| Sain Ôl-gynhyrchu | | | |
| Costau Ôl-gynhyrchu Eraill | | | |
| Costau Cynhyrchu Eraill | | | |
| Yswiriant/Cyllid | | | |
| Ffioedd Rheoli | | | |
| Costau Ymylol | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arall (Bydd angen rhoi manylion) | | | |

**Tabl 2: Gwariant yng Nghymru – Gemau**

| Math o Gost | Gwariant heb fod yng Nghymru | Gwariant yng Nghymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gwaith dylunio a chysyniad | | | |
| Gwaith celf | | | |
| Datblygu | | | |
| Profi | | | |
| Rheoli'r Prosiect/Cynhyrchu | | | |
| Rheoli/sefydlu rhwydweithiau | | | |
| Sain | | | |
| Marchnata (yn benodol i'r teitl hwn) | | | |
| Teithio a Thrafnidiaeth (yn benodol i gostau sy'n ymwneud â'r teitl hwn) | | | |
| Amser uwch-reolwyr | | | |
| Yswiriant/Cyllid | | | |
| Ffioedd Rheoli | | | |
| Costau sy'n gysylltiedig ag eiddo deallusol | | | |